# Defnyddio Dŵr yn Effeithlon – Arbed Dŵr

**Mae Dŵr Cymru'n glanhau dros 800 miliwn litr o ddŵr y dydd ac yn ei anfon trwy bibellau i'n cartrefi i ni gael ei ddefnyddio. Mae angen llawer o ynni i bwmpio dŵr i gartrefi pobl a gall hyn wneud drwg i'r amgylchedd. Cofiwch y gallwch helpu i arbed dŵr mewn llawer o ffyrdd: mynd i'r gawod ac nid i'r bath, defnyddio can dŵr yn lle pibell ddŵr i roi dŵr i blanhigion a CHAU TAPIAU SY'N DIFERU!**

Mae gofalwr yr ysgol yn flin/grac am fod pobl yn gadael tapiau i ddiferu yn yr ysgol a'i fod ef yn gorfod ei cau. Mesurodd faint o ddŵr oedd yn cael ei golli, mewn mililitrau, mewn un funud, mewn gwahanol fannau. Dyma a nododd.

| Lleoliad | Problem | ml y funud |
|---|---|---|
| Ystafell staff | Y peiriant dŵr poeth yn gollwng ychydig. | 35 |
| | 1 tap dŵr oer yn diferu. | 20 |
| Ffreutur | 1 tap dŵr oer yn llifo'n araf. | 60 |
| | 1 tap dŵr poeth yn rhedeg. | 600 |
| Toiledau'r merched bach | 1 tap dŵr oer yn rhedeg. | 500 |
| | 2 dap dŵr oer yn diferu. | 35 yr un |
| Toiledau'r bechgyn bach | 2 dap dŵr oer wedi'u cau. | 0 |
| | 2 dap dŵr oer yn diferu. | 20 yr un |
| Toiledau merched yr adran iau | Y tapiau dŵr oer i gyd wedi'u cau. | 0 |
| | 1 tap dŵr poeth wedi'i adael i redeg. | 300 |
| Toiledau bechgyn yr adran iau | 1 tap dŵr oer yn diferu'n araf. | 15 |
| | 3 thap yn gollwng. | 25 yr un |

Defnyddiwch yr wybodaeth isod i gyfrif sawl litr o ddŵr y byddai'r ysgol yn eu gwastraffu mewn blwyddyn. Her – Ceisiwch wneud y symiau x 60 a ÷ 1000 heb gyfrifiannell.

| | | |
|---|---|---|
| ml mewn 1 funud | | ml |
| ml mewn 1 awr | x 60 | |
| Troi i litrau | ÷ 1000 | |
| Litrau mewn 1 diwrnod | x 24 | |
| Litrau mewn 1 wythnos | x 7 | |
| Litrau mewn 1 flwyddyn | x 52 | |



| | | | |
|---|---|---|---|
| Ystafell staff | ________________litrau | Ffreutur | ________________litrau |
| Toiledau'r merched bach | ________________litrau | Toiledau'r bechgyn bach | ________________litrau |
| Toiledau merched yr adran iau | ________________litrau | Toiledau bechgyn yr adran iau | ________________litrau |
| Y cyfanswm fyddai'n cael ei wastraffu, mewn litrau (wedi'i dalgrynnu i'r rhif cyfan agosaf) | | | ________________litrau |